Healthcare Inspectorate Wales
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad Iechyd Meddwl (dirybudd)

## Ysbyty Sant Cadog Adferiad, Beechwood, Belle Vue a Pillmawr: Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad yr Arolygiad: 25 – 27 Hydref 2016

Dyddiad Cyhoeddi: 30 Ionawr 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.agic.org.uk



ISBN Digidol 978-1-4734-7943-2


© Hawlfraint y Goron 2017

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 2
2. Cyd-destun ........ 4
3. Crynodeb ........ 5
4. Canfyddiadau ........ 6
   - Ansawdd profiad y claf ........ 6
   - Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ........ 16
   - Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ........ 21
5. Y Camau Nesaf ........ 24
6. Methodoleg ........ 25
   - Atodiad A ........ 27

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cynhaliodd AGIC arolygiad dirybudd o Ysbyty Sant Cadog: Adferiad, Beechwood, Belle Vue a Pillmawr o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan rhwng 25 a 27 Hydref 2016.

Ymchwiliodd AGIC i sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Iechyd Meddwl 1983, y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol, mae AGIC hefyd yn ystyried sut mae'r gwasanaeth yn bodloni gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.[1]

Yn ystod ein harolygiadau, rydym yn ystyried ac adolygu'r meysydd canlynol:

- **Ansawdd profiad y claf:** Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu

[1] Cafodd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2011. Diben y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yw sicrhau bod cleifion a phobl sy'n dewis gofal iechyd preifat yn cael sicrwydd bod y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn ddiogel ac o ansawdd da. http://www.hiw.org.uk/rheoleiddio-gofal-iechyd

- **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol:** Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

- **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth:** Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain mewn perthynas â safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Ysbyty Sant Cadog yn darparu gofal iechyd i gleifion mewnol o fewn Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan. Mae'r ysbyty'n cynnwys:

- Adferiad – ward derbyniadau acíwt gyda 22 o welyau (cleifion cymysg eu rhyw)
- Beechwood – uned gofal dwys seiciatrig gyda phump o welyau (cleifion cymysg eu rhyw)
- Belle Vue – ward ar gyfer menywod gydag anghenion cymhleth gyda chwech o welyau
- Pillmawr – uned adsefydlu dan glo i ddynion gydag 13 o welyau
- Upper Lodge – uned adsefydlu agored i ddynion gyda thri o welyau

Mae Adferiad yn un o wardiau derbyniadau acíwt y bwrdd iechyd ac mae'n darparu gwasanaeth cleifion mewnol i oedolion sydd angen asesiad dwys, sefydlogiad a chanolbwyntio ar adferiad buan. Mae gan ward Adferiad Ystafell Adran 136,[2] sy'n lle diogel i gleifion sy'n aros am asesiad iechyd meddwl.

Uned gofal dwys seiciatrig yw Beechwood ac mae'n darparu gofal a thriniaeth i gleifion sy'n dioddef cyfnod mwyaf acíwt salwch meddwl. Roedd gan yr uned gofal dwys seiciatrig fan gofal ychwanegol y gellid ei ddefnyddio i ofalu am glaf i ffwrdd o gleifion eraill yn yr uned gofal dwys seiciatrig.

Roedd Belle Vue yn darparu adsefydlu iechyd meddwl hirdymor i gleifion benywaidd cyn iddynt gael eu rhyddhau i'r gymuned.

Roedd Pillmawr ac Upper Lodge yn darparu adsefydlu iechyd meddwl hirdymor i gleifion gwrywaidd cyn iddynt gael eu rhyddhau i'r gymuned. Roedd Pillmawr ac Upper Lodge yn cael eu rheoli fel un ward ac roedd Upper Lodge yn dŷ ar dir Ysbyty Sant Cadog, yn darparu gofal i uchafswm o dri o gleifion gyda llai o gyfyngiadau na ward Pillmawr, sydd ym mhrif adeilad yr ysbyty.

---

2

## 3. Crynodeb

Cynhaliwyd ein harolygiad o Ysbyty Sant Cadog ym mhob un o'r pedair o wardiau.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd amgylchedd y wardiau a'r gerddi'n cael ei gynnal yn ddymunol er gwaethaf cyfyngiadau strwythur yr hen ysbyty.
- Roedd gofal yn cael ei ddarparu trwy reolaeth ac arweinyddiaeth dda ar bob un o'r wardiau yn Ysbyty Sant Cadog gyda thimau cryf eu cymhelliant ac agored.
- Roedd cleifion yn derbyn gofal a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn diwallu anghenion cleifion unigol.
- Roedd yr amgylchedd yn ddiogel ar gyfer darparu gofal cleifion.
- Roedd y gwasanaeth yn sicrhau bod gofal cleifion yn cael ei ddarparu'n unol â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a'r Mesur Iechyd Meddwl.

Rydym yn argymell y gallai'r gwasanaeth wella’r canlynol:

- Mae angen adolygu'r ddarpariaeth bwyd a maeth i ddiwallu anghenion y grŵp cleifion yn Ysbyty Sant Cadog.
- Mae angen sefydlu rhaglen gadarn ar gyfer archwilio a rheoli meddyginiaethau.
- Rhaid i adran ystadau'r bwrdd iechyd gynnal gwaith cynnal a chadw prydlon ar y cyfarpar a'r dyfeisiau.
- Mae angen i offer priodol i'w defnyddio mewn argyfyngau meddygol fod ar gael ar ward Pillmawr.
- Mae angen gwella'r cyfleusterau cawod a baddon er mwyn diwallu anghenion y cleifion.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd profiad y claf*

**Amgylchedd y ward**

Mae'r pedair ward o fewn prif adeilad Ysbyty Sant Cadog. Mae wardiau Adferiad a Pillmawr yn estyniadau mwy diweddar i'r ysbyty gwreiddiol ac mae ganddynt fynedfa benodedig. Mae Belle Vue a Beechwood yn wardiau'r ysbyty gwreiddiol sydd wedi cael eu hailwampio a cheir mynediad atynt trwy adeilad gwreiddiol yr ysbyty. Mae Upper Lodge yn dŷ ar ei ben ei hun ar dir yr ysbyty ac mae ganddo ei fynedfa ei hun.

Roedd amgylchedd y wardiau yn Ysbyty Sant Cadog o safon resymol o ystyried cyfyngiadau'r lleoliad, yn arbennig Belle Vue a Beechwood. Roedd yn amlwg bod y bwrdd iechyd a staff y wardiau wedi ymdrechu i gael amgylchedd a oedd yn addas ar gyfer y grwpiau cleifion, er mwyn gwella profiad y claf.

Roedd gan bob ward ystafelloedd cyfarfod/ymwelwyr lle y gallai cleifion siarad â staff neu ymwelwyr yn breifat.  Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gyfleusterau penodol ar gyfer ymweliadau gan blant yn Ysbyty Sant Cadog. Cawsom enghreifftiau gan y staff o'r opsiynau oedd ar gael pe byddai unrhyw un dan 18 oed yn ymweld â'r ysbyty; fodd bynnag, nid oedd y rhain yn gwbl addas nac yn adlewyrchu'r canllawiau yng Nghod Ymarfer Cymru, paragraffau 11.15 ac 11.17.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfleusterau penodol ar gyfer plant sy'n ymweld ag Ysbyty Sant Cadog.***

Roedd adnoddau golchi dillad ar bob un o'r wardiau er mwyn i'r cleifion lanhau a sychu eu dillad, gyda chymorth gan staff pan fydd angen. Fodd bynnag, ar adeg ein hymweliad nid oedd y peiriant sychu dillad ar ward Belle Vue yn gweithio ac roedd wedi bod yn aros i gael ei drwsio neu ei amnewid ers nifer o fisoedd. O ganlyniad, roedd gofyn i gleifion sychu eu dillad ym mhrif ardal y ward, nad yw'n briodol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl gyfleusterau golchi dillad yn Ysbyty Sant Cadog yn gweithio'n iawn.***

Roedd Adferiad yn ward derbyniadau acíwt gyda 22 o welyau ar gyfer cleifion cymysg eu rhyw. Roedd llety cysgu'n cael ei ddarparu mewn pedair ystafell oedd yn cynnwys pedwar gwely, gyda llenni rhwng y gwelyau, a chwe ystafell wely sengl. Roedd lolfa fawr ac ystafell fwyta ar y ward ynghyd ag ystafell weithgareddau a oedd yn cynnwys bwrdd pŵl.

Yn ystod ein harolygiad, gwelwyd nad oedd y ffordd roedd ward Adferiad wedi ei gosod yn fuddiol i ofal cleifion. Roedd prif goridor prysur iawn ac roedd cleifion a staff yn cerdded i fyny ac i lawr y coridor hwn yn gyson. Roedd desg clerc y ward a swyddfa fechan yng nghanol y coridor ac roedd swyddfa'r nyrsys y tu ôl i'r rhain. Roedd y cleifion yn dod i'r fan hon yn rheolaidd i aros ac i siarad â staff y ward a allai fod yn y swyddfa. Roedd y cleifion hefyd yn dod i'r fan hon i dderbyn galwadau ffôn neu i ffonio gweithwyr proffesiynol, fel cyfreithwyr neu eiriolwyr. Roedd y staff yn mynd i mewn ac allan o swyddfa'r nyrsys yn rheolaidd, a oedd yn ychwanegu at brysurdeb yr ardal. Yn ogystal, roedd yr intercom ar gyfer mynedfa'r ward neu'r cyntedd yn y fan hon, a oedd eto'n ychwanegu at y prysurdeb.

Roedd y ffordd roedd y ward wedi ei gosod yn effeithio ar brofiad y claf ar y ward, a nododd rhai cleifion eu bod yn cael y ward i fod yn brysur iawn a bod y sŵn a'r gweithgarwch yn y coridor yn gwneud iddynt deimlo'n aflonydd weithiau. Roedd hefyd yn effeithio ar amodau gwaith y staff gan fod rhaid iddynt yn aml alw am gydweithiwr yn swyddfa'r nyrsys i gleifion, ateb yr intercom, a mynd i fynedfa'r ward i gyfarch ymwelwyr pan oeddent yn ganol eu gwaith.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd wella'r ffordd mae ward Adferiad wedi cael ei gosod i leihau prysurdeb y fynedfa at swyddfa'r nyrsys er mwyn gwella profiad y claf ac amodau gweithio staff.***

Mae gan ward Beechwood bedair ystafell wely unigol a man gofal ychwanegol a oedd yn cynnwys ystafell wely o faint rhesymol gyda thoiled, sinc a chawod. Roedd y man gofal ychwanegol yn cael ei ddefnyddio i ddarparu cymorth ychwanegol i glaf i ffwrdd o gleifion eraill yn yr uned gofal dwys seiciatrig. Dim ond un cawod ac un baddon oedd ar gael i weddill yr uned gofal dwys seiciatrig. Roedd ardal gymunedol ar y ward a oedd yn cynnwys lle bwyta a lolfa. Roedd y dodrefn trwy'r ward gyfan yn addas ar gyfer natur y ward.

Roedd chwe ystafell wely unigol ar ward Belle Vue. Roedd prif ardal gymunedol ar y ward a oedd yn cynnwys lle bwyta ac ardal ar gyfer gweithgareddau, ynghyd â lolfa deledu. Roedd ystafell amlbwrpas fawr oedd newydd gael ei hailwampio yn cael ei defnyddio'n rheolaidd ar gyfer gweithgareddau grŵp ac ymgysylltu unigol rhwng cleifion a staff. Roedd

cleifion hefyd yn gallu defnyddio cegin gweithgareddau byw o ddydd i ddydd dan oruchwyliaeth i baratoi eu prydau bwyd a diodydd eu hunain.

Roedd 13 ystafell wely unigol ar ward Pillmawr a thŷ tair ystafell wely ar dir Ysbyty Sant Cadog, a adwaenir fel Upper Lodge, a allai roi llety i uchafswm o dri o gleifion.  Roedd lolfa, ystafell fwyta a chegin ar lawr daear Upper Lodge ac roedd tair ystafell wely unigol ynghyd â thoiled, cawod a baddon i fyny'r grisiau.

Roedd gan y ward ardal gymunedol fawr a oedd yn cynnwys lle bwyta, lolfa deledu a bwrdd pŵl. Roedd cegin gweithgareddau byw o ddydd i ddydd yno hefyd y gallai cleifion ei defnyddio i wneud eu prydau bwyd a diodydd eu hunain.

Fodd bynnag, lleisiodd nifer o aelodau o staff bryderon am gynllun y gegin gweithgareddau byw o ddydd i ddydd, am nad oedd yn briodol i lawer o gleifion ei defnyddio ar yr un pryd, er enghraifft, oherwydd bod y poptai mor agos at ei gilydd. Roedd hyn yn golygu bod risg diogelwch i'r cleifion, a oedd hefyd yn effeithio ar brofiad y claf. Byddai gwella'r gegin gweithgareddau byw o ddydd i ddydd o fudd i'r grŵp cleifion.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynllun cegin gweithgareddau o ddydd i ddydd ward Pillmawr yn briodol i gleifion ei ddefnyddio.***

Un o'r pryderon cyffredin a leisiwyd gan y cleifion a staff trwy gydol ein harolygiad oedd y nifer annigonol o gawodydd a baddonau a oedd ar gael i gleifion. Dim ond dau gawod oedd ar ward Adferiad ar gyfer 22 o gleifion, sy'n annerbyniol, ac mae angen mwy o ddarpariaeth. Roedd gan ward Belle Vue ddau gawod a baddon ar gyfer chwech o gleifion, roedd gan ward Pillmawr dri chawod ar gyfer 13 o gleifion (roedd gan Upper Lodge ei gyfleusterau ei hun), ac ar ward Beechwood roedd un cawod ac un baddon i bedwar claf (gyda chawod ychwanegol yn y man gofal ychwanegol ar gyfer pumed claf).

Lleisiwyd nifer o bryderon hefyd am bwysedd anghyson y dŵr a thymheredd amrywiol cawodydd y cleifion trwy Ysbyty Sant Cadog.

Roedd angen ailwampio'r cawod yn y man gofal ychwanegol ar ward Beechwood gan fod teils ar goll ac roedd staeniau ar y teils.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o gyfleusterau cawod a baddon ledled Ysbyty Sant Cadog i ddiwallu anghenion cleifion a'u bod yn addas i'r diben.***

Nid oedd y gwres yn ystafell wely un claf ar ward Belle Vue yn gweithio ac roedd yr ystafell yn amlwg yn oerach na mannau eraill ar y ward. Cawsom ein hysbysu bod y bwrdd iechyd wedi ymchwilio i'r nam ond nad oedd unrhyw ddatrysiad wedi ei ganfod. Mae angen unioni hyn ar unwaith er mwyn sicrhau cyfforddusrwydd a llesiant y claf.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ystafell wely pob claf yn cael ei gwresogi'n ddigonol.***

Cawsom ein hysbysu hefyd bod ward Belle Vue yn aros am allweddi i ddrysau ystafelloedd gwely er mwyn i'r cleifion allu defnyddio allwedd i gloi eu hystafelloedd. Fodd bynnag, roedd y ward wedi bod yn aros am yr allweddi ers nifer o fisoedd ac nid oedd y bwrdd iechyd yn gallu darparu dyddiad pan fyddai'r allweddi ar gael.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod allweddi ar gael i ddrysau ystafelloedd gwely ar ward Belle Vue er mwyn i'r cleifion allu cael allweddi unigol, os yw asesiadau risg yn ystyried bod hynny'n briodol.***

Mae gan bob ward ardd gaeedig ddiogel y gall cleifion ei defnyddio trwy gydol y dydd. Roedd yn amlwg bod y staff wedi gwneud yr ardaloedd hyn yn ddeniadol ac yn llefydd y gallai'r cleifion fynd iddynt i gael awyr iach a gwneud gweithgareddau ac ymlacio y tu allan i'r ward.

Roedd cleifion yn cael ysmygu yn y gerddi, ond nid oedd pob un o'r tanwyr sigaréts gosodedig ar waliau'r gerddi'n gweithio. Dywedodd y staff a'r cleifion nad oedd y rhain yn gweithio'n rheolaidd. O ganlyniad, roedd rhai aelodau o staff yn cario tanwyr sigaréts yn ystod eu sifft; fodd bynnag, nododd nifer o aelodau o staff fod rhai cleifion yn torri ar draws gweithgareddau therapiwtig cleifion oherwydd hyn i ofyn i staff am daniwr sigaréts. Roedd hyn yn cael effaith negyddol ar ofal therapiwtig cleifion ar y wardiau.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i’r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfleusterau tanio sigaréts priodol ym mhob un o'r mannau ysmygu yn Ysbyty Sant Cadog.***

Roedd mynediad agored at yr ardd ar wardiau Adferiad a Pillmawr ac roedd mynediad at y gerddi ar wardiau Belle Vue a Beechwood yn gyfyngedig i amseroedd penodedig bob awr gydag aelodau o staff. Cawsom wybod bod rhai o'r rhesymau dros y cyfyngiadau ar wardiau Belle Vue a Beechwood oherwydd risg y grŵp cleifion a hefyd i atal cleifion rhag ysmygu trwy'r dydd.

Fodd bynnag, mae hwn yn arfer defodol ac yn cyfyngu ar fynediad cleifion i'r gerddi. Dylid rheoli ymddygiad cleifion ar sail unigol ac nid ar sail gyffredinol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r mynediad i'r gerddi, i ddiwallu anghenion unigol cleifion, ac ni ddylai roi arfer defodol ar waith.***

Roedd drws allanfa dân ar ward Adferiad a oedd yn agor ar gefn gardd gaeedig, ond nid oedd larwm y drws yn gweithio ac roedd wedi bod yn aros i gael ei drwsio ers nifer o fisoedd. Nododd y staff oherwydd lleoliad drws yr allanfa dân nad oedd bob amser yn amlwg pan oedd claf wedi mynd allan trwy'r drws a chadarnhawyd bod nifer o gleifion wedi dianc yn defnyddio'r allanfa hon. Mae hwn yn fethiant diogelwch y mae angen rhoi sylw iddo ar unwaith er diogelwch y cleifion.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod larwm yn cael ei osod ar ddrws yr allanfa dân ar ward Adferiad.***

Roedd rhan o'r sgrin breifatrwydd o amgylch ward Pillmawr wedi chwythu drosodd (yn benodol y tu allan i ffenest yr ystafell weithgareddau). Roedd hyn wedi arwain ar rwystro cryn dipyn o olau haul rhag dod i mewn i'r ystafell. Roedd tîm ystadau'r bwrdd iechyd wedi cael ei hysbysu am hyn ond nid oedd dyddiad wedi ei gadarnhau ar gyfer y gwaith trwsio.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y sgrin breifatrwydd o amgylch ward Pillmawr yn cael ei thrwsio.***

Roedd gan yr ystafell Adran 136 ar ward Adferiad fynedfa uniongyrchol o'r tu allan a lle parcio ar gyfer cerbydau'r heddlu. Roedd seddi priodol a mynediad uniongyrchol at gyfleusterau toiled yn yr ystafell Adran 136. Gwnaethom sylwi bod staen ar y wal uwchben y fynedfa allanol yn yr ystafell Adran 136 o hylif a gollwyd pan ddefnyddiwyd yr ystafell yn flaenorol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i’r bwrdd iechyd sicrhau bod yr ystafell Adran 136 yn cael ei glanhau'n briodol ar ôl cael ei defnyddio.***

Roedd gan gleifion le storio yn eu hystafelloedd gwely. Roedd llawer o'r cleifion a oedd wedi bod yn yr ysbyty am gyfnodau hir, rhai ohonynt yno ers dros flwyddyn, yn cael anhawster i storio'u holl eiddo yn eu hystafelloedd.

Fodd bynnag, roedd staff y ward yn cynorthwyo cleifion i storio eitemau ychwanegol oddi ar y ward a mynd atynt yn ôl yr angen.

Cwynodd nifer o gleifion nad oedd ganddynt unrhyw le y gellid ei gloi i storio eitemau bach personol, fel arian a gemwaith. Felly roedd cleifion yn bryderus am beidio â chadw'r rhain gyda nhw trwy'r amser ac roedd hyn yn effeithio ar brofiad y claf.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan yr holl gleifion yn Ysbyty Sant Cadog fynediad at gyfleusterau storio y gellir eu cloi.***

Roedd hysbysfwrdd cleifion ar bob un o'r wardiau a oedd yn dangos gwybodaeth am eiriolaeth a thaflenni a phosteri eraill gyda gwybodaeth berthnasol.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod y wardiau'n dangos lluniau o'r aelodau o staff a oedd yn gweithio arnynt ac yn nodi eu swyddogaethau.

## Preifatrwydd ac urddas

Trwy gydol ein harolygiad, gwelsom y staff yn trin cleifion â pharch a charedigrwydd drwy'r holl ysbyty. Cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo bod eu preifatrwydd a'u hurddas yn cael eu parchu a gwnaethant siarad yn gadarnhaol am y staff yn Ysbyty Sant Cadog.

Roedd gan yr holl gleifion yn wardiau Beechwood, Belle Vue a Pillmawr ystafell wely unigol; fodd bynnag, roedd ystafelloedd cysgu gyda phedwar gwely ynddynt ar ward Adferiad. Roedd ardaloedd y gwelyau yn yr ystafelloedd cysgu'n cael eu gwahanu gan lenni a oedd yn rhoi'r isafswm posibl o breifatrwydd i gleifion ac yn effeithio ar brofiad y claf.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau yn yr ystafelloedd cysgu a darparu llety mewn ystafelloedd sengl.***

Dywedodd cleifion fod staff, ar y cyfan, yn parchu eu preifatrwydd a'u hurddas, ac yn curo ar ddrws eu hystafelloedd gwely cyn mynd i mewn. Fodd bynnag, yn ystod ein harolygiad gwelsom fod paneli arsylwi ar ddrysau ystafelloedd gwely rhai cleifion yn cael eu gadael ar agor, gan amharu ar breifatrwydd cleifion. Nid oedd yn amlwg ar bob ward y dylid cadw'r paneli arsylwi ar gau trwy'r amser ac y dylai staff eu hagor i gynnal arsylwadau’n unig ac yna'u cau eto.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod paneli arsylwi ar ddrysau ystafelloedd gwely ar gau oni bai bod staff yn cynnal arsylwadau ac nad ydynt yn cael eu gadael ar agor.***

Roedd cleifion yn cael defnyddio ffonau symudol er mwyn cadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau. Roedd mynediad at ffonau symudol yn cael ei reoli ar sail risg pob claf unigol.  Dywedodd cleifion a staff wrthym y gellid defnyddio ffonau'r ward hefyd er mwyn cysylltu â pherthnasau, ac roedd ffonau talu ar y wardiau.

Roedd gan y swyddfa ar bob ward *fwrdd cipolwg ar statws cleifion* a oedd yn dangos gwybodaeth gyfrinachol am bob claf a oedd yn derbyn gofal ar y ward. Roedd cyfleusterau ar bob ward i guddio'r wybodaeth gyfrinachol pan nad oedd y byrddau'n cael eu defnyddio a gwelsom mai dyma oedd arfer y staff drwy gydol ein harolygiad.

## Therapïau a gweithgareddau i gleifion

Roedd amserlenni gweithgareddau ar gyfer pob ward ac roedd gan bob claf ei gynllun gweithgareddau unigoledig. Trwy gydol yr arolygiad, gwelsom gleifion yn ymgymryd â gweithgareddau yn yr ysbyty a chleifion yn mynd i'r gymuned mewn grwpiau neu'n unigol. Ar y cyfan, dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw fod ganddynt ddigon o bethau i'w gwneud, ac y gofynnwyd iddynt beth hoffent ei wneud, ond mynegwyd barn wahanol gan gleifion ar ward Adferiad.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod wardiau wedi datblygu cydberthnasau gweithio cadarnhaol gyda sefydliadau allanol i gynorthwyo i ddarparu gweithgareddau, therapïau a dosbarthiadau i gleifion.

Roedd cleifion a chanddynt seibiant Adran 17, a'r rhai a oedd yn gleifion anffurfiol,[3] yn gallu defnyddio eu hamser i fynd allan am dro ar dir yr ysbyty, neu i fynd i'r gymuned leol, gan gynnwys mynd i weithio yn achos ambell i glaf.  Gwnaethom siarad â nifer o gleifion a gadarnhaodd eu bod yn gallu gwneud hyn, a'u bod yn cael cyfnodau i ffwrdd o'r wardiau'n brofiad cadarnhaol iddynt.

---

[3] Claf anffurfiol yw claf sydd wedi cytuno i ddod i'r ysbyty, neu i aros ynddo o'i wirfodd.  Nid ydynt yn cael eu cadw yn yr ysbyty o dan bwerau Deddf Iechyd Meddwl 1983.

Ar y cyfan, roedd yn amlwg bod staff a chleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ar wardiau Pillmawr a Belle Vue, er bod llai o ymgysylltiad i'w weld ar wardiau Adferiad a Beechwood.

Oherwydd bod Beechwood yn uned gofal dwys seiciatrig, roedd cyfyngiadau ar waith a oedd yn cyfyngu ar y gweithgareddau a oedd ar gael i'r cleifion. Fodd bynnag, gwelsom staff yn ceisio annog cleifion trwy gydol ein hamser ar y ward a nifer o gleifion yn ymgymryd â gweithgareddau.

Roedd ward Adferiad yn brysur iawn a gwelsom staff trwy gydol y ddau ddiwrnod yn ymdrin â cheisiadau ac ymholiadau cleifion. Nid oedd hyn yn gadael fawr o amser iddynt ymgysylltu â chleifion mewn gweithgareddau therapiwtig. Gwelsom staff therapi galwedigaethol yn ymgymryd â gweithgareddau gyda detholiad o gleifion ar ward Adferiad a oedd yn fodlon cymryd rhan.

Fodd bynnag, dywedodd nifer o gleifion eraill ar ward Adferiad wrthym nad oedd ond ychydig iawn neu ddim a oedd o ddiddordeb iddynt ei wneud trwy'r dydd. Roedd diffyg gweithgareddau strwythuredig hefyd i gleifion ar ward Adferiad gyda'r nosau ac ar benwythnosau.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r gweithgareddau sydd ar gael i gleifion ar ward Adferiad i sicrhau bod gweithgareddau addas yn cael eu cynnig i gleifion trwy gydol y dydd, gyda'r nosau ac ar benwythnosau.***

Dywedodd cleifion a staff fod cynrychiolwyr o'r gwasanaeth eiriolaeth yn ymweld â'r wardiau'n rheolaidd a gwelsom fod gwybodaeth am eiriolaeth ar gael i gleifion.

## Bwyd a maetheg

Darparwyd brecwast, cinio canol dydd, cinio nos a swper  i gleifion yn Ysbyty Sant Cadog o brif gegin yr ysbyty. Mae'r cleifion yn dewis eu prydau bwyd yn ddyddiol o fwydlen sy'n cael ei newid bob pythefnos.

Roedd y rhan fwyaf o brydau bwyd y cleifion yn cael eu paratoi oddi ar y safle ac yna'n cael eu twymo (yn ôl y gofyn) ar y safle a'u cludo o'r brif gegin i'r mannau gweini ar y pedair ward ar droliau arlwyo twym.

Lleisiodd y cleifion a'r staff bryderon am ansawdd y bwyd yn Ysbyty Sant Cadog.

Gwnaeth nifer o gleifion sylwadau am natur ailadroddus y dewisiadau, gyda chylchdro o bythefnos yn unig i'r fwydlen. Mae angen i'r bwrdd iechyd ystyried

hyn, yn arbennig gan y bydd cyfran fawr o gleifion yn derbyn gofal yn Ysbyty Sant Cadog am gyfnod hir, gyda rhai cleifion yn aros am dros flwyddyn.

Cwynodd y staff a'r cleifion hefyd am ansawdd y bwyd, gan ddweud bod bwyd yn aml yn cyrraedd wedi ei or-goginio. Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom arsylwi na wnaeth eitemau oedd wedi'u harchebu ar gyfer cinio gyrraedd o'r brif gegin; fodd bynnag, cafodd hyn ei unioni'n gyflym gan staff y gegin pan gawsant eu hysbysu gan y ward.

Roedd staff a chleifion hefyd yn bryderus am faint y dognau yn y prydau a ddarparwyd i'r cleifion. Roedd y mwyafrif helaeth o'r cleifion yn Ysbyty Sant Cadog yn egnïol trwy gydol y dydd ac nid oedd maint pryd safonedig yr ysbyty ar gyfer wardiau meddygol yn ddigonol i'r cleifion egnïol ar wardiau iechyd meddwl.

Roedd yn amlwg nad oedd y ddarpariaeth bwyd yn Ysbyty Sant Cadog yn diwallu gofynion y grŵp cleifion. Oherwydd ein canfyddiadau ar y wardiau, fel rhan o'n harolygiad gwnaethom gwrdd ag uwch-reolwyr a oedd yn gyfrifol am y ddarpariaeth arlwyo yn Ysbyty Sant Cadog, ynghyd â rhai o safleoedd eraill y bwrdd iechyd.

Siaradodd yr uwch-reolwyr arlwyo am eu dyhead i adolygu'r ddarpariaeth arlwyo i sicrhau ei bod yn diwallu anghenion y cleifion yn Ysbyty Sant Cadog.

Roedd yn amlwg o'n trafodaethau gyda staff y wardiau a'r uwch-reolwyr a oedd yn gyfrifol am y ddarpariaeth arlwyo yn Ysbyty Sant Cadog nad oedd proses ffurfiol ar gyfer rhoi adborth i hysbysu uwch-reolwyr arlwyo o'r pryderon a chwynion a leisiwyd gan staff y ward, ar ran y cleifion weithiau. Siaradodd staff am drefniadau anffurfiol i leisio pryderon neu gwynion am arlwyo. Fodd bynnag, roedd diffyg dogfennau systematig yn y trefniadau hyn a allai helpu i wella'r gwasanaeth arlwyo, fel cofnod o bryderon, camau gweithredu, gan bwy a sut.

Mae angen i'r bwrdd iechyd adolygu'r ddarpariaeth arlwyo yn Ysbyty Sant Cadog i sicrhau ei bod yn diwallu anghenion y grŵp cleifion.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i’r bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion yn cael digon o ddewis o brydau bwyd i osgoi ailadrodd.***

***Rhaid i’r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl gleifion yn derbyn prydau bwyd sydd wedi cael eu coginio am yr hyd cywir o amser.***

***Rhaid i’r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl fwyd sy'n cael ei archebu'n cael ei dderbyn ar y wardiau.***

***Rhaid i’r bwrdd iechyd sicrhau bod proses systematig ar gael i roi adborth ar y ddarpariaeth arlwyo i sicrhau y gall y bwrdd iechyd ddysgu yn sgil pryderon a chwynion.***

Nid oedd gan ward Belle Vue na Beechwood fynediad uniongyrchol at beiriannau darparu dŵr yfed i gleifion; roedd y rhain dan glo yng nghegin y ward. Roedd rhaid i gleifion ofyn i aelodau o staff am ddŵr ffres ac nid yw hyn yn briodol. Rhaid i ddŵr yfed fod ar gael yn rhydd i gleifion.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan yr holl gleifion yn Ysbyty Sant Cadog fynediad uniongyrchol at ddŵr yfed.***

## *Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol*

### Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu dogfennau cadw statudol 16 o gleifion a oedd yn derbyn gofal ledled yr holl wardiau yn Ysbyty Sant Cadog. Nodwyd y materion nodedig canlynol:

- Roedd y dogfennau cadw statudol a adolygwyd gennym yn cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl.
- Roedd mwyafrif ffeiliau'r cleifion ar y wardiau'n cynnwys copïau o'u dogfennau cadw, ond roedd dwy ffeil ar ward Pillmawr nad oedd yn cynnwys casgliad llawn.
- Roedd copïau anghyflawn o ddogfennau cadw statudol yn ffeil un claf ar ward Beechwood a dim ond tudalen flaen y ffurflenni oedd wedi cael eu copïo a'u ffeilio.
- Roedd darpariaethau Cydsynio i Driniaeth, Adran 58, wedi cael eu cwblhau yn unol â'r Ddeddf; fodd bynnag, roedd ffeil un claf ar ward Pillmawr yn cynnwys Tystysgrif Cydsynio i Driniaeth claf arall yn ogystal â'i dystysgrif ei hun.
- Roedd cofnod da o aelodau staff yn hysbysu cleifion o'u hawliau dan Adran 132 y Ddeddf, pa un ai yr oedd y claf wedi deall hyn, ac a oedd angen unrhyw gamau gweithredu pellach gan y staff.
- Roedd ffeiliau cleifion ar y wardiau, ble bo'n briodol, yn cynnwys copïau o ddogfennau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Roedd un eithriad ar ward Belle Vue lle roedd un ddogfen yng nghyfrol flaenorol y claf a chafodd hyn ei unioni yn ystod yr arolygiad.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gweithdrefnau archwilio ar waith ar gyfer pob un o'r wardiau yn Ysbyty Sant Cadog, er mwyn sicrhau bod y copïau o ddogfennau statudol a gedwir ar y wardiau'n gyflawn ac yn cael eu llenwi'n gywir.***

### Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu'r dogfennau cynllunio gofal a thriniaeth ar gyfer 14 claf yn Ysbyty Sant Cadog. Ar y cyfan, roedd y dogfennau cynllunio gofal a thriniaeth a adolygwyd wedi cael eu cwblhau'n dda ac yn bodloni meini prawf y mesur.

Roedd cynlluniau gofal a thriniaeth yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Fodd bynnag, ar nifer o achlysuron nid oedd y cynlluniau gofal a thriniaeth wedi cael eu llofnodi a'u diweddaru gan staff ar ôl iddynt gael eu cwblhau neu eu hadolygu.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cynlluniau gofal a thriniaeth cyfredol yn cael eu llofnodi gan y staff cyfrifol.***

Roedd yn thema gyffredin nad oedd staff yn cofnodi unrhyw anghenion cleifion nad oeddent yn cael eu diwallu tra oeddent yn derbyn gofal yn Ysbyty Sant Cadog. Mae'n bwysig bod anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu'n cael eu cofnodi er mwyn iddynt gael eu hadolygu'n rheolaidd gan y tîm amlddisgyblaeth er mwyn edrych ar opsiynau ar gyfer diwallu'r anghenion hynny. Bydd cofnodi anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu hefyd yn helpu'r bwrdd iechyd i ddeall ei anghenion gwasanaeth.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod anghenion cleifion nad ydynt yn cael eu diwallu'n cael eu cofnodi mewn cynlluniau gofal a thriniaeth.***

Nid oedd bob amser yn glir a oedd claf wedi cytuno ar ei gynllun gofal a thriniaeth ac wedi derbyn copi ohono. Roedd nifer o achlysuron lle nad oedd llofnod y claf ar y cynllun ac nid oedd unrhyw reswm yn cael ei ddangos.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i’r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn dangos (lle y darperir ar y cynllun gofal a thriniaeth) a yw'r claf wedi cytuno ar ei gynllun gofal a thriniaeth.***

## Ystafelloedd clinigol a rheoli meddyginiaeth

Ar y cyfan, gwelsom fod y gwaith o weinyddu meddyginiaeth i gleifion yn cael ei reoli'n dda yn Ysbyty Sant Cadog. Fodd bynnag, canfuwyd nifer o gamgymeriadau cofnodi yn ystod ein harolygiad y mae angen rhoi sylw iddynt er mwyn sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio a'i rheoli'n briodol.

Roedd gan bob ward yn Ysbyty Sant Cadog ei hystafell glinig ei hun ac roedd yr holl droliau meddyginiaeth wedi eu diogelu'n briodol ym mhob un o'r ystafelloedd clinig. Roedd yr holl gypyrddau meddyginiaeth wedi eu cloi'n briodol er mwyn storio meddyginiaethau'n ddiogel. Roedd pob cwpwrdd cyffuriau a reolir yn ddiogel, ond nid oedd pob cofnod yn y llyfr cofnodi cyffuriau a reolir wedi cael ei lofnodi gan ddau aelod o staff fel sy'n ofynnol pan mae cyffuriau a reolir yn cael eu tynnu o'r cwpwrdd cyffuriau a reolir.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl nyrsys cofrestredig yn dilyn Polisi Cyffuriau a Reolir y bwrdd iechyd.***

Roedd staff yn mesur a chofnodi tymheredd yr oergelloedd meddyginiaeth yn rheolaidd ym mhob un o'r clinigau. Fodd bynnag, roedd achlysuron ar nifer o wardiau lle nad oedd y weithred o fesur tymheredd yn cael ei chofnodi. Mae hyn yn golygu nad oedd staff bob amser yn gallu sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu storio ar y tymheredd gofynnol.

Nodwyd hefyd bod angen dadrewi'r oergell meddyginiaeth ar ward Pillmawr.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn monitro a chofnodi tymheredd yr oergelloedd meddyginiaeth ar draws pob un o'r wardiau yn Ysbyty Sant Cadog.***

Roedd meddyginiaeth a oedd wedi mynd heibio ei dyddiad defnyddio'n cael ei storio yn yr ystafell glinig ar ward Pillmawr. Trwy sgyrsiau â staff, nodwyd nad oedd system gadarn gan y bwrdd iechyd ar gyfer gwirio a thynnu meddyginiaethau sydd wedi mynd heibio eu dyddiad defnyddio yn Ysbyty Sant Cadog. Roedd posibilrwydd y gellid gweinyddu meddyginiaeth sydd wedi mynd heibio ei dyddiad defnyddio i gleifion.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod proses gadarn i adnabod meddyginiaethau sydd wedi mynd heibio i'w dyddiad defnyddio ar bob un o'r wardiau yn Ysbyty Sant Cadog.***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod system ar waith ar gyfer tynnu meddyginiaethau sydd wedi mynd heibio eu dyddiad defnyddio o Ysbyty Sant Cadog.***

Nid oedd y sinc yng nghlinig Belle Vue yn gweithio ac roedd yn aros i gael ei drwsio neu ei amnewid; roedd hyn yn effeithio ar ddyletswyddau staff clinigol a gofal cleifion. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd y bwrdd iechyd yn gallu rhoi dyddiad cwblhau'r gwaith.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y sinciau ym mhob clinig yn Ysbyty Sant Cadog yn gweithio'n iawn.***

Roedd gan staff ar bob ward fynediad at Bolisi Rheoli Meddyginiaethau'r bwrdd iechyd trwy gyfrwng mewnrwyd y bwrdd iechyd.

## Diogelwch

Yn gyffredinol, canfuom fod iechyd, diogelwch a llesiant cleifion yn cael eu diogelu. Roedd pob ward yn ddiogel rhag mynediad heb awdurdod, ac roedd aelodau staff yn wyliadwrus er mwyn sicrhau bod diogelwch cleifion yn cael ei gynnal. Fel y nodwyd uchod, roedd angen larwm ar un o'r allanfeydd tân ar ward Adferiad.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysbyty, ac roedd yr holl staff yn cario larymau personol pe bai angen galw am gymorth.

Roedd digwyddiadau'n cael eu hysbysu trwy ddefnyddio system electronig y bwrdd iechyd ar gyfer hysbysu am ddigwyddiad. Roedd hyn yn caniatáu i ddigwyddiadau gael eu dadansoddi er mwyn adolygu tueddiadau ac amlder. Disgrifiodd uwch staff drefniadau addas ar gyfer hysbysu am ddigwyddiadau diogelwch cleifion ac ymchwilio iddynt. Dywedwyd wrthym fod yr hyn a ddysgwyd o ganlyniad i ddigwyddiadau ar y wardiau'n cael ei rannu â'r tîm staff. Dywedwyd wrthym hefyd fod yr hyn a ddysgwyd o ganlyniad i ddigwyddiadau'n cael ei rannu'n fwy eang ymhlith yr ysbyty a'r gwasanaethau iechyd meddwl o fewn y bwrdd iechyd mewn cyfarfodydd rheolwyr.

Roedd diffibriliwr ar dair ward, sef Adferiad, Belle Vue a Beechwood, yr oedd staff y ward yn gallu mynd ato'n rhwydd. Fodd bynnag, nid oedd diffibriliwr ar ward Pillmawr a dywedwyd wrthym mai'r drefn oedd y byddai'n rhaid i staff nôl y diffibriliwr o ward Adferiad gerllaw. Er bod gan staff ward Pillmawr fynediad rhydd i ward Adferiad, roedd angen i aelod o staff ar ward Adferiad ddatgloi'r ystafell glinig lle roedd y diffibriliwr yn cael ei storio ac yna dychwelyd i ward Pillmawr. Teimlir bod hyn yn ormod o oedi mewn sefyllfa o argyfwng sy'n gofyn am ddiffibriliwr ac y gallai effeithio ar ddiogelwch cleifion.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod diffibriliwr ar bob un o'r wardiau rhag ofn y bydd achos o argyfwng.***

Nid oedd cyfarpar arall i'w ddefnyddio mewn argyfwng yn cael ei storio'n drefnus ar ward Pillmawr; roedd yn cael ei gadw mewn blwch yn yr ystafell glinig. Fe all hyn arwain at oedi wrth i staff geisio dod o hyd i gyfarpar penodol y mae ei angen arnynt mewn argyfwng, gan effeithio ar ddiogelwch cleifion. Roedd cyfarpar i'w ddefnyddio mewn argyfwng ar y wardiau eraill wedi cael ei drefnu'n briodol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfarpar i'w ddefnyddio mewn argyfwng yn cael ei drefnu'n briodol ar bob ward rhag ofn y bydd achos o argyfwng.***

Roedd cadw cofnodion o arsylwadau lleoliad cleifion ar ward Adferiad yn anhrefnus. Roedd cofnodion y diwrnod cyfredol yn cael eu cadw mewn ffolder, ond nid oedd rhai'r diwrnodau blaenorol wedi cael eu ffeilio; roedd y rhain mewn basged ar ddesg ymysg gwaith papur arall. Mae'r siartiau hyn yn ddogfennau pwysig yn ymwneud â diogelwch cleifion ac felly dylid eu ffeilio'n briodol er mwyn gallu cyfeirio atynt yn hawdd. Roedd cofnodion arsylwi ar wardiau eraill Ysbyty Sant Cadog yn cael eu ffeilio'n briodol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i’r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion arsylwi ar gleifion yn cael eu ffeilio'n briodol.***

## *Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth*

**Y tîm amlddisgyblaeth**

Gwelsom reolaeth ac arweinyddiaeth dda iawn ar bob un o'r wardiau yn Ysbyty Sant Cadog. Gwelsom dîm staff ymroddedig a oedd yn deall anghenion y cleifion yn dda. Gwnaeth y staff y gwnaethom siarad â nhw sylwadau cadarnhaol ynghylch y tîm amlddisgyblaeth. Dywedodd y staff fod y tîm amlddisgyblaeth yn gweithio mewn ffordd gydweithredol a gofynnir am safbwyntiau ac fe'u gwerthfawrogir.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod nyrsys dan hyfforddiant wedi bod yn gweithio yn yr ysbyty ar leoliad a dywedwyd wrthym ei fod yn amgylchedd oedd yn ffafriol i ddysgu, gyda staff cefnogol a chalonogol.

Gwnaethom wahodd staff i rannu eu barn ynglŷn â gweithio yn yr uned. Gwnaethom wneud hyn drwy siarad â'r staff a gofyn iddynt gwblhau holiadur AGIC. Dywedodd y staff fod cyfathrebu ymhlith y tîm yn dda, a'u bod yn teimlo bod modd trafod materion yn agored. Ar y cyfan, roedd aelodau o staff yn gadarnhaol ynglŷn â gweithio yn yr ysbyty a'r gofal a ddarperir i gleifion.

Dywedodd staff eu bod yn mynychu cyfarfodydd staff yn rheolaidd, a oedd yn cynnwys cyfarfodydd trosglwyddo sifft dyddiol a chyfarfodydd tîm. Mae'r bwrdd iechyd wedi cyflwyno proses fanwl ar gyfer trosglwyddo gofal ac roedd wedi cael ei rhoi ar waith ledled y wardiau iechyd meddwl.

Roedd y bwrdd iechyd wedi newid yn ddiweddar i sifftiau hwy o 12 awr yn hytrach na saith awr a hanner. Roedd barn y staff yn gymysg, a oedd yn adlewyrchu dewisiadau aelodau unigol o staff o ran patrymau gwaith ac ymrwymiadau y tu allan i'r gwaith.

Fodd bynnag, un pryder cyson a leisiwyd am y newidiadau o ran hyd sifftiau gan staff ar ward Adferiad oedd bod y patrymau sifft newydd yn golygu cyfnodau hwy, hyd at wythnos, rhwng sifftiau. Roedd hyn yn golygu pan oeddent yn dychwelyd i'r gwaith, oherwydd bod cleifion yn cael eu derbyn ar raddfa mor gyflym i ward derbyniadau acíwt ac oherwydd nifer y gwelyau (22), byddai nifer fawr o gleifion ar y ward nad oedd y staff yn gyfarwydd â nhw o bosibl. Felly roeddent yn treulio llawer o amser ar eu sifft gyntaf yn ôl yn y gwaith yn dod i adnabod y cleifion newydd, eu hymddygiad, risgiau ac ati. Roedd rhai aelodau o staff yn teimlo bod hyn yn golygu nad oeddent yn gallu treulio cymaint o amser gyda chleifion ac o ganlyniad y gallai hyn effeithio ar ofal cleifion.

Nid dyma oedd yr achos i staff ar ward Belle Vue neu ward Pillmawr gan fod y cleifion ar y wardiau hynny'n aros yn yr ysbyty am gyfnodau hwy. Nid oedd

hyn yn bryder i staff ar ward Beechwood chwaith gan fod llai o welyau (pump) yn yr uned gofal dwys seiciatrig felly roedd y staff yn gallu ymgyfarwyddo'n llawer cyflymach gydag unrhyw newidiadau.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod patrymau sifft yn Ysbyty Sant Cadog yn briodol ar gyfer natur pob un o'r wardiau fel bod gan staff wybodaeth gyfredol am y cleifion unigol maent yn gofalu amdanynt.***

Pryder a leisiwyd gan staff ar wahanol raddfeydd ar draws yr holl wardiau yn Ysbyty Sant Cadog oedd y diffyg meddygon ar gyfer argyfyngau corfforol ac anghenion corfforol y cleifion o ddydd i ddydd. Roedd y diffyg gofal meddygol hwn yn effeithio ar ofal yn Ysbyty Sant Cadog ac mae angen datrys hyn.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau gofal meddygol digonol yn Ysbyty Sant Cadog.***

**<u>Hyfforddiant staff ac adnoddau</u>**

Gwnaethom adolygu'r ystadegau hyfforddiant staff ar gyfer pob ward yn Ysbyty Sant Cadog.  Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n gadarnhaol am y cyfleoedd hyfforddiant a oedd ar gael o fewn y bwrdd iechyd ac roeddent yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth i ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol perthnasol. Fodd bynnag, lleisiodd nifer o aelodau o staff bryder am gael digon o amser i ymgymryd â'r e-ddysgu gorfodol a bod cyfrifoldebau eraill ar sifft yn aml yn cymryd blaenoriaeth.

Wrth adolygu'r ffigyrau hyfforddiant gorfodol staff ar gyfer yr holl wardiau, er bod y cyfraddau cwblhau'n dda, gwelsom fod diffygion o ran cwblhau hyfforddiant gorfodol gan rai aelodau o staff ar bob un o'r wardiau. Mae'n hanfodol bod yr holl staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol o fewn yr amserlenni gofynnol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn cael cyfleoedd priodol i gwblhau hyfforddiant gorfodol pan fyddant yn y gwaith.***

Wrth adolygu'r ffigyrau hyfforddiant statudol, gwelsom fod y system e-ddysgu a ddefnyddir gan y bwrdd iechyd yn araf iawn. Gwnaeth nifer o aelodau o staff sylwadau am hyn hefyd, gan nodi oherwydd bod y system mor araf nad oeddent yn awyddus i gwblhau hyfforddiant. Nododd aelodau o staff hefyd fod y nifer cyfyngedig o gyfrifiaduron a oedd ar gael yn Ysbyty Sant Cadog yn golygu ei bod yn anodd iddynt gael mynediad at y system e-ddysgu pan

oeddent ar sifft. Mynegodd rheolwyr hefyd anhawster i gael ffigyrau cwblhau oddi ar y system i fonitro hyfforddiant eu staff oherwydd perfformiad araf y system e-ddysgu.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y system e-ddysgu'n hawdd ei defnyddio ac yn ymatebol yn Ysbyty Sant Cadog.***

Roedd system ar waith er mwyn i staff gael adolygiad datblygu perfformiad blynyddol, a chadarnhaodd y rhan fwyaf o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael adolygiad datblygu perfformiad blynyddol. Roedd cyfraddau cwblhau yn uchel, a lle nad oedd y rhain wedi cael eu cwblhau, roedd dyddiadau ar gyfer y cyfarfod arfarnu wedi cael eu pennu yn nyddiaduron unigolion.

Roedd y bwrdd iechyd yn rhoi cyfle i staff gael eu goruchwylio ac aelodau unigol o staff a oedd yn gyfrifol am drefnu hynny gydag unigolion penodedig o fewn y bwrdd iechyd.

Fodd bynnag, nid oedd rhaglen strwythuredig o gyfarfodydd goruchwylio ffurfiol gyda'u rheolwyr ar gyfer aelodau o staff yn Ysbyty Sant Cadog. Nododd yr aelodau o staff y gwnaethom siarad â nhw fod ganddynt gydberthnasau proffesiynol agored a gonest gyda'i gilydd a'r rheolwyr ac felly eu bod yn gallu trafod a myfyrio ar ddigwyddiadau o ddydd i ddydd. Roedd nifer o staff yn teimlo y byddai rhaglen strwythuredig o gyfarfodydd goruchwylio ffurfiol yn fuddiol i gefnogi aelodau unigol o staff ac i wella a rhannu arfer da.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod aelodau o staff yn cael cefnogaeth mewn cyfarfodydd goruchwylio ffurfiol gyda'u rheolwyr yn briodol o aml.***

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn eglur pa bryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Ysbyty Sant Cadog yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y gwasanaeth mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesurol, yn gyraeddadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â'r materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r gwasanaeth yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei werthuso ac yna'i gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 6. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau'n cydymffurfio â Deddf Iechyd Meddwl 1983, y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Pwyslais arolygiadau iechyd meddwl AGIC yw sicrhau bod unigolion sy'n derbyn gwasanaethau o'r fath:

- yn ddiogel
- yn derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig, cartrefol
- yn derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol
- yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynllun gofal a thriniaeth
- yn cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl
- yn cael eu caniatáu a'u hannog i wneud dewisiadau
- yn cael mynediad at amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu llawn botensial
- yn gallu cael mynediad at eiriolwyr annibynnol ac yn cael eu cynorthwyo i godi pryderon a gwneud cwynion
- yn cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â theulu a ffrindiau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny.

Gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Sgyrsiau â chleifion a chyfweliadau â staff
- Arsylwadau cyffredinol ar yr amgylchedd gofal a'r arferion gofal
- Trafodaethau ag uwch-reolwyr yn y gyfarwyddiaeth
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisïau a gweithdrefnau sy'n sail i ofal cleifion
- Ystyried prosesau, gweithgareddau a rhaglenni gwella ansawdd.

Mae arolygiadau AGIC yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn. Efallai y byddant hefyd yn nodi problemau ehangach sy'n

gysylltiedig ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gofal iechyd a ddarperir a'r ffordd y mae'r gwasanaethau a ddarperir yn cynnal urddas a gofal hanfodol.

Mae AGIC yn defnyddio amrywiaeth o adolygwyr arbenigol a lleyg ar gyfer y broses arolygu, gan gynnwys adolygydd â phrofiad helaeth o fonitro cydymffurfiad â Deddf Iechyd Meddwl 1983.

Rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth yn y cyfarfod adborth a gynhelir ar ddiwedd pob un o'n harolygiadau.

Tynnir sylw'r gwasanaeth at unrhyw bryderon brys sy'n codi o'r arolygiadau hyn trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Ar gyfer gwasanaethau annibynnol, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu o achosion difrifol o dorri rheoliadau trwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio.[4] Mae'r canfyddiadau hyn (lle y maent yn berthnasol) wedi'u nodi'n fanwl yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

---

[4] Fel rhan o broses diffyg cydymffurfio a gorfodi AGIC ar gyfer gofal iechyd annibynnol, bydd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn cael ei gyflwyno mewn achos lle mae diffyg cydymffurfio rheoleiddiol yn fwy difrifol ac yn perthyn i ganlyniadau gwael a methiannau systemig. Achosion o'r fath fydd rhai lle mae canlyniadau gwael i bobl (oedolion neu blant) sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a lle mae methiannau'n arwain at danseilio hawliau pobl. Mae copi o broses cydymffurfiaeth AGIC ar gael ar gais.

*Atodiad A*

## Gwasanaeth Iechyd Meddwl: Cynllun Gwella

## Bwrdd Iechyd: Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

## Ysbyty: Ysbyty Sant Cadog

## Dyddiad yr arolygiad: 25 – 27 Hydref 2016

| Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfleusterau penodol ar gyfer plant sy'n ymweld ag Ysbyty Sant Cadog. | Mae gan y bwrdd iechyd bolisi ar gyfer Plant yn Ymweld â Wardiau.<br>Bydd adnoddau priodol yn cael eu nodi a'u prisio. | Rheolwr Gwella Gwasanaethau ar gyfer Gwasanaethau i Oedolion | Mehefin 2017 |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl gyfleusterau golchi dillad yn Ysbyty Sant Cadog yn gweithio'n iawn. | Mae cyfleusterau wardiau Adferiad, Pillmawr a Beechwood yn gweithio'n iawn.<br>Bydd y broblem gyda'r peiriant sychu dillad ar ward Belle Vue yn cael ei huwchgyfeirio gan y Rheolwr Cyffredinol. | Arweinydd Prosiect ar gyfer Gwaith Mân | Rhagfyr 2016 |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd wella'r ffordd mae ward Adferiad wedi cael ei gosod i leihau | Bydd cais yn cael ei wneud i'r adran Gwaith Mân am bris ar gyfer ailosod cynllun y | Rheolwr Ward | Mehefin 2017 |

| Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| prysurdeb y fynedfa at swyddfa'r nyrsys er mwyn gwella profiad y claf ac amodau gweithio staff. | swyddfa. Bydd y mynd a dod o gwmpas y swyddfa nyrsys yn cael ei ddadansoddi. | Adferiad | |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynllun cegin gweithgareddau o ddydd i ddydd ward Pillmawr yn briodol i gleifion ei ddefnyddio. | Bydd y gwaith o osod cegin newydd yn ward Pillmawr yn cael ei brisio. | Rheolwr Ward Pillmawr | Mehefin 2017 |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o gyfleusterau cawod a baddon ledled Ysbyty Sant Cadog i ddiwallu anghenion cleifion a'u bod yn addas i'r diben. | Bydd yr holl gyfleusterau baddon a chawod yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn addas i'r diben. | Rheolwr Gwella Gwasanaethau ar gyfer Gwasanaethau i Oedolion | Ionawr 2017 |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod allweddi ar gael i ddrysau ystafelloedd gwely ar ward Belle Vue er mwyn i'r cleifion allu cael allweddi unigol, os yw asesiadau risg yn ystyried bod hynny'n briodol. | Mae'r allweddi wedi cael eu harchebu a byddant ar gael erbyn diwedd mis Rhagfyr. | Rheolwr Ward Belle Vue | Rhagfyr 2016 |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfleusterau tanio sigaréts priodol ym mhob un o'r mannau ysmygu yn Ysbyty Sant Cadog. | Mae tanwyr a chysgodfeydd ychwanegol yn cael eu sefydlu yn yr uned gofal dwys seiciatrig. Mae'r cyfleusterau hyn ar gael eisoes ar wardiau Adferiad a Pillmawr ond nid yw'r taniwr yn gweithio ar Pillmawr ar hyn o bryd a byddwn yn tynnu sylw'r adran | Arweinydd Prosiect ar gyfer Gwaith Mân | Chwefror 2017 |

| Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | Gwaith ac Ystadau at hyn. | | |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r mynediad i'r gerddi, i ddiwallu anghenion unigol cleifion, ac ni ddylai roi arfer defodol ar waith. | Mae gan bob claf fynediad at y gerddi ond bydd hyn yn amodol ar gynllunio gofal ac asesu risg. Mae mynediad agored at y gerddi ar wardiau Adferiad a Pillmawr yn ystod y dydd. | Rheolwyr y Wardiau | Parhaus |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod larwm yn cael ei osod ar ddrws yr allanfa dân ar ward Adferiad. | Mae'r gost o osod y larwm wedi cael ei chymeradwyo yn awr. Bydd y gwaith wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Rhagfyr. | Arweinydd Prosiect ar gyfer Gwaith Mân a'r Rheolwr Cyfleusterau | Rhagfyr 2016 |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y sgrin breifatrwydd o amgylch ward Pillmawr yn cael ei thrwsio. | Bydd yr adran Gwaith Mân yn ei thrwsio. | Arweinydd Prosiect ar gyfer Gwaith Mân | Rhagfyr 2016 |
| Rhaid i’r bwrdd iechyd sicrhau bod yr ystafell Adran 136 yn cael ei glanhau'n briodol ar ôl cael ei defnyddio. | Bydd yr amserlen lanhau ar gyfer yr ardal hon yn cael ei hadolygu a'i diweddaru, a nodir hefyd pryd mae'r ystafell ar gael. | Rheolwr Gwasanaethau Gweithredol a Rheolwr Gwella Gwasanaethau ar gyfer Cyfleusterau | Cwblhawyd |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan yr holl gleifion yn Ysbyty Sant Cadog fynediad at gyfleusterau storio y gellir eu cloi. | Bydd pris yn cael ei geisio ar gyfer diogellau electronig.<br>Oherwydd diffyg lle storio ar y ward, mae rhywfaint o eiddo cleifion yn cael ei storio gerllaw ac mae'n bosibl mynd ato. | Rheolwr Gwella Gwasanaethau ar gyfer Gwasanaethau i Oedolion | Mehefin 2017 |

| Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod diffibriliwr ar bob un o'r wardiau rhag ofn y bydd achos o argyfwng. | Bydd diffibriliwr a throli dadebru yn cael eu harchebu ar gyfer ward Pillmawr.<br>Mae gan bob ward arall yn Ysbyty Sant Cadog ddiffibriliwr. | Uwch-nyrs Gwasanaethau Fforensig | Rhagfyr 2016 |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfarpar i'w ddefnyddio mewn argyfwng yn cael ei drefnu'n briodol ar bob ward rhag ofn y bydd achos o argyfwng. | Mae'r troliau dadebru'n cael eu gwirio bob wythnos ar bob ward i sicrhau bod yr holl gyfarpar angenrheidiol ar gael ac wedi'i drefnu'n briodol. | Rheolwyr y Wardiau | Rhagfyr 2016 |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion arsylwi ar gleifion yn cael eu ffeilio'n briodol. | Mae'r polisi Ymgysylltu ac Arsylwi Therapiwtig ar waith. Bydd pob ward yn sicrhau bod darpariaeth ar waith ar gyfer cwblhau dogfennau'n brydlon. | Rheolwyr y Wardiau | Rhagfyr 2016 |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod patrymau sifft yn Ysbyty Sant Cadog yn briodol ar gyfer natur pob un o'r wardiau fel bod gan staff wybodaeth gyfredol am y cleifion unigol maent yn gofalu amdanynt. | Mae'r patrwm sifft 12 awr wedi cael ei adolygu a chytunwyd y byddai'r wardiau'n dychwelyd at batrwm sifft o saith awr a hanner. | Nyrs Arwain Gwasanaethau Oedolion | Ionawr 2017 |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau gofal meddygol digonol yn Ysbyty Sant Cadog. | Bydd y Cyfarwyddwr Clinigol yn adolygu'r ddarpariaeth feddygol ar gyfer Ysbyty Sant Cadog. | Cyfarwyddwr Clinigol Gwasanaethau Oedolion | Mawrth 2017 |

| **Yr Hyn y Mae Angen ei Wella** | **Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd** | **Swyddog Cyfrifol** | **Amserlen** |
|---|---|---|---|
| Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau llety yn yr ystafelloedd cysgu a darparu llety mewn ystafelloedd sengl. | Bydd papur arfarnu opsiynau'n cael ei ddatblygu i ystyried dichonoldeb creu llety ystafelloedd unigol ar wardiau cleifion mewnol.<br><br>Bydd y bwrdd iechyd yn cael adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth am yr ystafelloedd cysgu. | Rheolwr Cyfarwyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Oedolion<br><br>Rheolwr Ward Adferiad | Mawrth 2017 |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod paneli arsylwi ar ddrysau ystafelloedd gwely ar gau oni bai bod staff yn cynnal arsylwadau ac nad ydynt yn cael eu gadael ar agor. | Anfonwyd nodyn at yr holl staff i'w hatgoffa i gadw'r paneli arsylwi ar gau.<br><br>Bydd rheolwyr y ward / dirprwy reolwyr y ward yn adolygu hyn.<br><br>Byddwn yn cael pris ar gyfer drysau newydd ar ward Adferiad. | Rheolwr Ward Adferiad | Cwblhawyd<br><br>Mawrth 2017 |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r gweithgareddau sydd ar gael i gleifion ar ward Adferiad i sicrhau bod gweithgareddau addas yn cael eu cynnig i gleifion trwy gydol y dydd, gyda'r nosau ac ar benwythnosau. | Adolygiad o weithgareddau ar gyfer darpariaeth saith diwrnod. | Rheolwyr y Wardiau a'r Prif Therapydd Galwedigaethol | Mawrth 2017 |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl nyrsys cofrestredig yn dilyn Polisi Cyffuriau a Reolir y bwrdd iechyd. | Byddwn yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Polisi Rheoli Meddyginiaethau a bod esgeulustod yn cael ei wirio. Gofynnir i staff atgoffa cydweithwyr os ydynt yn gweld esgeulustod. | Rheolwyr y Wardiau | Rhagfyr 2016 |

| Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn monitro a chofnodi tymheredd yr oergelloedd meddyginiaeth ar draws pob un o'r wardiau yn Ysbyty Sant Cadog. | Mae proses gadarn ar waith ac mae'r dasg hon yn cael ei dirprwyo ar bob sifft ac yn cael ei monitro gan reolwyr y ward. Bydd hyn hefyd yn cael ei adolygu gan ymweliadau Bwrdd Iechyd yr Amgylchedd. | Rheolwyr y Wardiau | Rhagfyr 2016 |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod proses gadarn i adnabod meddyginiaethau sydd wedi mynd heibio eu dyddiad defnyddio ar bob un o'r wardiau yn Ysbyty Sant Cadog. | Bydd y mater hwn yn cael ei godi gyda'r fferyllydd arwain iechyd meddwl i ganfod proses eglur. | Fferyllydd Arwain Iechyd Meddwl | Rhagfyr 2016 |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod system ar waith ar gyfer tynnu meddyginiaethau sydd wedi mynd heibio eu dyddiad defnyddio o Ysbyty Sant Cadog. | Bydd y mater hwn yn cael ei godi gyda'r fferyllydd arwain iechyd meddwl i ganfod proses eglur. | Fferyllydd Arwain Iechyd Meddwl | Rhagfyr 2016 |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y sinciau ym mhob clinig yn Ysbyty Sant Cadog yn gweithio'n iawn. | Bydd yr adran Gwaith ac Ystadau'n gwirio pob sinc i sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn ac yn eu trwsio os oes angen. | Arweinydd Prosiect ar gyfer Gwaith Mân | Tachwedd 2016 |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion yn cael digon o ddewis o brydau bwyd i osgoi ailadrodd. | Bydd adolygiad yn cael ei gynnal o'r gwasanaeth arlwyo ar gyfer Ysbyty Sant Cadog gan gynnwys dewisiadau ar y fwydlen. | Rheolwr Cyfleusterau | Chwefror 2017 |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl gleifion yn derbyn prydau bwyd sydd | I'w ymchwilio gan y Rheolwr Gwella Gwasanaethau Arlwyo a'r Rheolwr | Rheolwr Cyfleusterau | Rhagfyr 2016 |

| Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| wedi cael eu coginio am yr hyd cywir o amser. | Gwasanaethau Gweithredol. | | |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl fwyd sy'n cael ei archebu'n cael ei dderbyn ar y wardiau. | Bydd yr adolygiad o'r gwasanaeth arlwyo hefyd yn edrych ar y drefn o archebu bwyd. | Rheolwr Cyfleusterau | Chwefror 2017 |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod proses systematig ar gael i roi adborth ar y ddarpariaeth arlwyo i sicrhau y gall y bwrdd iechyd ddysgu yn sgil pryderon a chwynion. | I'w ymchwilio gan y Rheolwr Gwella Gwasanaethau Arlwyo a'r Rheolwr Gwasanaethau Gweithredol. | Rheolwr Cyfleusterau | Rhagfyr 2016 |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan yr holl gleifion yn Ysbyty Sant Cadog fynediad uniongyrchol at ddŵr yfed. | Bydd yr uned gofal dwys seiciatrig a ward Belle Vue yn sicrhau bod dŵr yfed ar gael trwy'r amser. | Rheolwyr y Wardiau | Tachwedd 2016 |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn cael cyfleoedd priodol i gwblhau hyfforddiant gorfodol pan fyddant yn y gwaith. | Bydd rheolwyr y wardiau'n hwyluso amser i staff gwblhau hyfforddiant gorfodol a bydd hwn yn cael ei fonitro trwy gyfrwng y broses arfarnu perfformiad ac adolygu datblygiad a'u cofnod staff electronig. | Rheolwyr y Wardiau | Adolygir yn flynyddol |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y system e-ddysgu'n hawdd ei defnyddio ac yn ymatebol yn Ysbyty Sant Cadog. | Mae hyn yn cael ei adolygu'n gorfforaethol. | | |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod aelodau o staff yn cael cefnogaeth mewn cyfarfodydd goruchwylio ffurfiol gyda'u | Mae cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal ar bob ward lle caiff staff gyfle i leisio pryderon. Mae hyn hefyd yn cael ei wneud trwy | Rheolwyr y Wardiau | Rhagfyr 2016 |

| Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| rheolwyr yn briodol o aml. | gyfrwng y broses arfarnu perfformiad ac adolygu datblygiad ac arfer myfyriol. Mae goruchwylio clinigol hefyd ar gael, ac mae'r adran yn datblygu cofrestr o oruchwylwyr clinigol. | | |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gweithdrefnau archwilio ar waith ar gyfer pob un o'r wardiau yn Ysbyty Sant Cadog, er mwyn sicrhau bod y copïau o ddogfennau statudol a gedwir ar y wardiau'n gyflawn ac yn cael eu llenwi'n gywir. | Mae rheolwr y ward yn cwblhau gwiriad o waith papur yn wythnosol sy'n cynnwys hyn.<br>Mae rhaglen gadarn ar waith ar gyfer archwilio pob ward. Bydd yr Adran Deddf Iechyd Meddwl yn cynnal archwiliad parhaus o'r holl wardiau. | Rheolwr y Ddeddf Iechyd Meddwl | Mehefin 2017 |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cynlluniau gofal a thriniaeth presennol yn cael eu llofnodi gan y staff cyfrifol. | Mae cydgysylltwyr gofal wedi cael eu hatgoffa i wneud hyn fel mater o drefn.<br>Bydd hyn hefyd yn cael ei ystyried fel rhan o'r Archwiliad Cynllunio Gofal a Thriniaeth Adrannol, sy'n digwydd bob blwyddyn. | Arweinydd Cynllunio Gofal a Thriniaeth | Mehefin 2017 |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod anghenion cleifion nad ydynt yn cael eu diwallu'n cael eu cofnodi mewn cynlluniau gofal a thriniaeth. | Caiff hyn ei adolygu gan y Bwrdd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth. | Cadeirydd y Bwrdd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth | Ionawr 2017 |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn dangos (lle y darperir ar y cynllun gofal a thriniaeth) a yw'r claf wedi cytuno | Gofynnir i'r cleifion ddarllen a llofnodi eu cynlluniau gofal i gadarnhau eu bod yn cytuno. Bydd cydgysylltwyr gofal yn cael eu | Arweinydd Cynllunio Gofal a Thriniaeth | Mehefin 2017 |

| Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| ar ei gynllun gofal a thriniaeth. | hatgoffa i sicrhau bod y rhain yn cael eu cwblhau.<br><br>Bydd hyn hefyd yn cael ei ystyried fel rhan o'r Archwiliad Cynllunio Gofal a Thriniaeth Adrannol, sy’n digwydd bob blwyddyn. | | |